



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley



Adolygiad o'r Cynllun Rheoli 2020 – 2025

Hydref 2021

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Rhagair – Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n croesawu Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol yn cynnwys rhai o'r ardaloedd gwledig mwyaf prydferth, trawiadol a dramatig yng Nghymru. Tirweddau o bwysigrwydd cenedlaethol yw'r rhain, gyda dynodiadau sy'n rhoi'r statws uchaf ar gyfer gwarchod tirwedd. Mae miliynau o ymwelwyr yn mwynhau'r rhinweddau arbennig hyn bob blwyddyn.

Anaml iawn y mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol wedi bod yn uwch yn yr ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwleidyddol. Mae mannau gwyrdd a gwyllt yn rhoi seibiant a chyfleoedd i bobl anadlu'n rhydd. Fodd bynnag, maent hefyd wedi cael eu rhoi dan bwysau mawr, ac yn drist iawn maent wedi cael eu cam-drin gan rai. Rhaid i ni – drwy Gynlluniau Rheoli a'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt – alluogi ymwelwyr i gael profiadau o'r radd flaenaf tra'n sicrhau nad yw'r rhinweddau arbennig rydym yn ceisio eu diogelu yn cael eu difrodi. Rhaid i fuddiannau cymunedau, busnesau a rheolwyr tir lleol fod yn flaenllaw yn ein meddyliau hefyd.

Mae cydbwysu'r buddiannau a'r blaenoriaethau hyn yn galw am ddulliau gweithredu gwirioneddol gydweithredol. Mae cynlluniau Rheoli AHNE yn ymgorffori'r cydweithio hwn ac, o'r herwydd, rwy'n rhoi pwys mawr arnynt.

Mae'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn dangos nad oes yr un o ecosystemau Cymru yn dangos holl nodweddion gwytnwch ar hyn o bryd. Yn gyffredinol, mae amrywiaeth fiolegol yn dirywio, ac mae hyd a lled rhai cynefinoedd wedi dirywio'n sylweddol hefyd. Rhaid inni weithredu i greu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys adfer safleoedd gwarchodedig a mawndiroedd, a chreu Coedwig Genedlaethol [sy'n cynnwys safleoedd yn Nyffryn Gwy]. Mae atebion sy'n seiliedig ar natur hefyd yn ein helpu i baratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Cynllun Rheoli hwn ar gyfer AHNE Dyffryn Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn enghraifft o'r arfer o fynd i'r afael â heriau amgylcheddol a chymdeithasol cymhleth drwy gydweithio lleol cadarn mewn ffordd sy'n gwella'r broses o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac sy'n gwneud cyfraniad cryf at lesiant cenedlaethau'r dyfodol o ddinasyddion yng Nghymru.

Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cynnwys tua 5% o arwynebedd tir Cymru ac felly maent yn bartneriaid allweddol o ran cyflawni ystod eang o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Maent yn aml wedi cael eu gwrthio i'r cyrion a'u hanwybyddu o'u cymharu â Pharciau Cenedlaethol. Dros y blynyddoedd nesaf, rwy'n gobeithio y bydd y cynnydd sydd wedi cael ei wneud o ran codi proffil ac uchelgais ein Hardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn gallu parhau.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at gefnogi'r gwaith o roi'r Cynllun hwn ar waith.

Cynnwys

1 Cyflwyniad	1
1.1 Yr AHNE	1
1.2 Gofynion Statudol y Cynllun Rheoli	2
1.3 Strwythur y Cynllun Rheoli 2020-2025	3
2 Datblygu Cynllun Rheoli 2020-2025	4
2.1 Pwrpas y Cynllun Rheoli	4
2.2 Llywodraethu	4
3 Cyd-destun a Sbardunau Cynllun Rheoli 2020-2025	7
3.1 Cyflwyniad	7
3.2 Cyd-destun polisi	9
3.2.1 Statws Treftadaeth y Byd UNESCO	9
3.2.2 Datganiad Gweinidog yr Amgylchedd ar gyfer Tirweddau Dynodedig, 2018	9
3.2.3 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	9
3.2.4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	9
3.2.5 Sefyllfa Byd Natur Cymru, 2019	9
3.2.6 Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru, 2020	9
3.2.7 Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, 2018	9
3.2.8 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015	9
3.2.9 Datganiad Colchester 2019	10
3.2.10 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016	10
3.2.11 Datganiad Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru	10
3.2.12 Cynlluniau Datblygu Lleol	10
3.2.13 Canllawiau Cynllunio Atodol AHNE, 2018	10
4 Dull Gweithredu Gwasanaethau Ecosystem	11
5 Nodweddion a Rhinweddau Arbennig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	13
5.1 Diffinio'r Nodweddion a'r Rhinweddau Arbennig	13
5.2 Cyflwr a thueddiadau sylfaenol	13
6 Gweledigaeth ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2020-2025	16
7 Themâu'r Cynllun Rheoli	17
8 Natur, Tirwedd a Threftadaeth	18
8.1 Cyflwyniad	18
8.2 Prif Nodau	19
8.3 Sut beth fyddai llwyddiant?	19
8.4 Amcanion Strategol	21
9 Yr Hinsawdd sy'n Newid	22
9.1 Cyflwyniad	22
9.2 Prif Nodau	23
9.3 Sut beth fyddai llwyddiant?	23
9.4 Amcanion Strategol	24

10 Hamdden, Iechyd a Lles	25
10.1 Cyflwyniad	25
10.2 Prif Nodau	25
10.3 Sut beth fyddai llwyddiant?	26
10.4 Amcanion Strategol	26
11 Yr Economi Wledig	28
11.1 Cyflwyniad	28
11.2 Prif Nodau	28
11.3 Sut beth fyddai llwyddiant?	29
11.4 Amcanion Strategol	30

Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1 Lleoliad a Nodweddion Allweddol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	2
Ffigur 2 1 Strwythur Llywodraethu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	5

Rhestr o Dablau

Tabl 5 1 Nodweddion a Rhinweddau Arbennig	15
---	----

1 Cyflwyniad

1.1 Yr AHNE

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn 390 cilometr sgwâr o rai o dirweddau mwyaf rhyfeddol y DU. O lethrau arfordirol Bryniau Prestatyn yn y gogledd i fynyddoedd anghysbell y Berwyn a Thrphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte yn y de, mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dirwedd o wrthgyferbyniadau. I'r gogledd mae Bryniau Clwyd yn gadwyn hynod o gopaon grugog wedi'u coronni â bryngaerau o'r Oes Haearn, i'r De, mae Gweunydd Llandegla yn arwain i Fynydd Rhiwabon mawreddog a chlogwyni calchfaen ysblennydd tarren Eglwyseg. Yma, mae Dyffryn Dyfrdwy yn adleisio tirwedd ganoloesol, gydag olion prydfarth Castell Dinas Brân, Piler Eliseg ac Abaty Glyn y Groes a Chastell mawreddog y Waun yn gwarchod y fynedfa i'r dyffryn i'r dwyrain. Mae Thrphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte, sydd bellach yn Safle Treftadaeth y Byd, yn gofeb i orffennol diwydiannol yr AHNE a'r cymunedau a luniodd yr ardaloedd hyn.



Ffigur 1-1 Lleoliad a Nodweddion Allweddol AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

1.2 Gofynion Statudol y Cynllun Rheoli

Cynhyrchir y Cynllun Rheoli hwn yn unol â'r rheoliadau a gynhwysir yn Adran 89 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'n ceisio diffinio'r dull o warchod a gwella nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE drwy ddulliau rheoli cyfannol sy'n rhoi cyfrif am fygythiadau a gyrwyr presennol.

Mae Cynllun Rheoli 2020-2025 yn sefydlu'r strategaeth reoli ar gyfer yr AHNE yn ystod cyfnod o newid ac ansicrwydd sylweddol wedi'i ysgogi gan ddylanwadau allanol gan gynnwys Brexit, argyfyngau hinsawdd ac ecolegol a chanlyniadau ac adferiad yn dilyn pandemig Covid-19. Rhaid i Gynllun Rheoli 2020-2025 ymateb i'r her hon drwy sefydlu dulliau cadarn ar gyfer rheoli rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn rhagweithiol. Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn ceisio nodi heriau a chyfleoedd tebygol ond mae hefyd yn adeiladu ar hyblygrwydd y dull gweithredu i sicrhau bod y gwaith o reoli'r AHNE yn cael ei gynnal lle nad oes modd rhagweld sbardunau a digwyddiadau yn y dyfodol.

1.3 Strwythur y Cynllun Rheoli 2020-2025

Mae Cynllun Rheoli 2020-2025 yn wahanol i'r Cynllun Rheoli blaenorol (2014-2019). Mae wedi'i strwythuro i fynd i'r afael yn well â'r heriau allweddol sy'n wynebu ein tirwedd a'n cymunedau dros y blynyddoedd nesaf ac mae'n nodi sut y gellir cyflawni hyn mewn tirwedd sydd eisoes yn uchel ei pharch am ei harddwch naturiol.

Mae'r cynllun wedi'i osod ar sail pedair thema allweddol sy'n adlewyrchu'r heriau hyn.

- **Natur, Tirwedd a Threftadaeth:** *Mynd i'r afael â dirywiad mewn rhywogaethau ac effaith newid yn yr hinsawdd ar gynefinoedd a thirweddau yr AHNE. Cadw'r nodweddion treftadaeth ddiwylliannol unigryw. Newidiadau mewn arferion rheoli tir (yn enwedig yn sgil Brexit).*
- **Addasu i Hinsawdd sy'n Newid:** *Cadernid nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE o ran newid yn yr hinsawdd. Effaith debygol ein hymateb i newid yn yr hinsawdd ar nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE – gan sicrhau bod ein hymateb i newid yn yr hinsawdd yn ystyried yr angen i warchod ansawdd y dirwedd.*
- **Hamdden, Iechyd a Lles:** *Gwerth yr AHNE o ran cefnogi lles corfforol a meddyliol. Pwysau hamdden a thwristiaeth ar dirweddau sensitif a chymunedau gwledig. Effaith pandemig Covid-19 ar ymddygiad ymwelwyr a'r pwysau cysylltiedig ar yr AHNE.*
- **Yr Economi Wledig:** *Cyfleoedd a heriau sy'n wynebu'r economi wledig yn yr AHNE yn sgil pandemig Covid-19, diwygio amaethyddol ar ôl Brexit a gofynion lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.*

Ar gyfer pob un o'r themâu allweddol, mae Cynllun Rheoli 2020-2025 yn ystyried yr effeithiau posibl ar Nodweddion a Rhinweddau Arbennig yr AHNE ac yn cynnig Amcanion Strategol a chymau gweithredu cysylltiedig yn y Cynllun Gweithredu i liniaru effaith a gwella'r rhinweddau a'r nodweddion sy'n gwneud yr AHNE yn arbennig ac yn unigryw.

2 Datblygu Cynllun Rheoli 2020-2025

2.1 Pwrpas y Cynllun Rheoli

Pwrpas y Cynllun Rheoli hwn yw cyflwyno fframwaith rheoli a chymau gweithredu cysylltiedig ar gyfer rheoli'r AHNE ar y cyd yn llwyddiannus yn ystod cyfnod y cynllun 2020-2025. Mae'r Cynllun yn berthnasol i bawb sy'n ymgymryd â gweithgareddau a allai effeithio ar yr AHNE, gan gynnwys:

- **Awdurdodau Perthnasol** – Pob corff cyhoeddus ac ymgwymerwyr statudol (fel y'u diffinnir yn Adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) sydd â'r ddyletswydd i roi sylw i ddibenion yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae Cyd-bwyllgor yr AHNE yn cynrychioli ac yn gweithredu ar ran tri Awdurdod Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.
- **Partneriaeth yr AHNE** – Mae'r Bartneriaeth AHNE yn adnodd effeithiol yn ei hamrediad a'i dyfnder o arbenigedd a phrofiad gwleidyddol a phroffesiynol. Mae'n cynrychioli'r awdurdodau lleol, tîrfeddianwyr, ffermwyr, buddiannau cadwraeth a hamdden. Mae'r Bartneriaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Rheoli'r AHNE drwy ei arbenigedd a'i phrofiad mewn ystod eang o feysydd sy'n ymwneud â rheoli'r dirwedd ac adroddiadau i'r Cyd-bwyllgor.
- **Partneriaid yr AHNE** – Sefydliadau ac unigolion sydd â rôl allweddol yn y gwaith o gyflwyno a hyrwyddo rhaglenni'r AHNE. Mae partneriaid yn cael eu cynrychioli gan Weithgorau AHNE, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, RSPB ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.
- **Tîrfeddianwyr a rheolwyr Tir** – Mae'r Cynllun yn ceisio gweithio gyda thîrfeddianwyr a rheolwyr tir ac yn cydnabod y rôl allweddol sydd ganddynt i'w chwarae fel gwarcheidwaid ardaloedd arwyddocaol o'r AHNE.
- **Cymunedau Lleol** – Mae'r cynllun yn ymrwymo i weithio gyda'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn yr AHNE ac mae'n nodi pwysigrwydd cymunedau o ran diffinio a gofalu am y dirwedd. Mae'r cynllun yn nodi agenda ar gyfer gweithio gyda chymunedau'r AHNE.
- **Defnyddwyr ac Ymwelwyr â'r ardal** – Mae llawer o bobl yn mwynhau'r AHNE fel ymwelwyr ac mae'r cynllun hwn yn cydnabod yr effaith y mae'r AHNE yn ei chael ar bobl a chymunedau y tu hwnt i'w ffiniau. Bydd ymwelwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o reoli'r AHNE yn gynaliadwy yn ystod cyfnod y cynllun 2020-2025.

Mae'r Cynllun Rheoli yn cydnabod bod gan gymunedau lleol, busnesau, perchnogion tir ac ymwelwyr ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o reoli'r AHNE yn llwyddiannus a'i gwytnwch yn wyneb yr heriau y mae'n eu hwynebu yn ystod cyfnod y cynllun 2020-2025 a thu hwnt. Mae Cynllun Rheoli 2020-2025 wedi cael ei ddylunio i fod yn glir ac yn hygyrch; cynllun gweithredu ymarferol i bawb gydweithio ac arloesi ar gyfer dyfodol llwyddiannus yr ardal unigryw hon. Yn benodol, mae'r Cynllun Rheoli yn ceisio ymgysylltu â rhannau o'r boblogaeth sydd fel arfer yn cael eu tangynrychioli mewn AHNE.


2.2 Llywodraethu

Mae'r dull llywodraethu ar gyfer yr AHNE yn adlewyrchu natur gydweithredol ei reolaeth i gynnwys dull gweithredu ar y cyd gan y tri awdurdod lleol (Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint) ynghyd â phartneriaethau eraill. Y Cyd-bwyllgor sydd wrth wraidd y strwythur llywodraethu.

Sefydlwyd y **Cyd-bwyllgor** gan Gynghorau Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint drwy gytundeb cyfreithiol yn 2014 i gyflawni eu swyddogaethau AHNE statudol ar y cyd. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Aelodau Arweiniol (aelodau'r Cabinet) o bob Awdurdod Lleol ac mae ganddo'r pŵer i weithredu ar ran yr Awdurdodau Lleol hynny wrth gyflawni dibenion yr AHNE. Mae'n cael ei gefnogi gan Weithgor Swyddogion o swyddogion perthnasol o'r awdurdodau lleol cyfansoddol a Chyfoeth Naturiol Cymru, a Phartneriaeth yr AHNE sy'n rhoi cyngor arbenigol ar faterion rheoli yn yr AHNE. Mae'r Cyd-bwyllgor yn sicrhau dull unedig o reoli'r AHNE ar draws y 3 Awdurdod o ran dull gweithredu strategol a dyrannu adnoddau.

Mae **Partneriaeth** yr AHNE yn cynnwys unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli ystod eang o fuddiannau ar draws yr AHNE, gan gynnwys awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, busnesau lleol, trigolion a ffermwyr. Mae'r Partneriaeth yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor gyda gwybodaeth ac arbenigedd helaeth am yr AHNE, ei wasanaethau darparu a'i rheolaeth.

Mae'r **Gweithgorau** Partneriaeth yn cynrychioli materion a diddordebau cyfredol yn yr AHNE ac yn dwyn ynghyd aelodau'r Partneriaeth gyda sgiliau a diddordebau arbenigol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a rheoli arferion gorau yn yr AHNE sy'n benodol i bob thema.



Ffigur 2-1 Strwythur Llywodraethu AHNE

3 Cyd-destun a Heriau ar gyfer Cynllun Rheoli 2020-2025

3.1 Cyflwyniad

Mae Cynllun Rheoli 2020-2025 yn dod ar adeg o newid trosiannol sylweddol, a fydd yn arwain at oblygiadau o ran rheoli'r AHNE yn llwyddiannus er mwyn gwarchod a gwella'r Nodweddion a'r Rhinweddau Arbennig yn ystod cyfnod y cynllun sydd i ddod.



Natur, Tirwedd a Threftadaeth

Mae'r AHNE yn cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n adlewyrchu'r amrywiadau lleol mewn daeareg, topograffeg, pridd, defnydd tir a hinsawdd. Mae cribau gweundir dramatig Bryniau Clwyd a bryniau tonnog Dyffryn Dyfrdwy yn gymysg â chlogwyni calchfaen ysblennydd, afonydd rhaeadrol a throellog a choetiroedd gwasgarog. Maent yn cynnwys rhai o gynefinoedd pwysicaf y DU a chydabyddir arwyddocâd yr ardaloedd cadwraeth

hyn gan fod dros 26% o'r AHNE wedi'i dynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig.

Y diben statudol cyntaf i reoli AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016 (SoNaRR2016) yn darparu tystiolaeth gref ar gyfer maint a hyd a lled yr Argyfwng Natur, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin 2021. Mae'n tynnu sylw at ddirywiad parhaus a bod bioamrywiaeth yn parhau i fod yn agored i niwed, ar hyn o bryd ac o ran gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd. Mae 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiplannu'n llwyr. Mae'r asesiad hwn o gyflwr yn cael ei ategu gan Adroddiad Cyflwr yr AHNE, sy'n cyd-fynd â'r cynllun rheoli hwn, ac mae'n tynnu sylw at y rheidrydd yn y cynllun hwn i adfer byd natur a galluogi mwy o wydnwch a gallu i addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae natur yn cloi carbon yn ogystal â chefnogi mesurau addasol hanfodol fel dŵr glân, lleihau'r perygl o lifogydd a gwella llesiant.

Mae'r AHNE yn cynrychioli rhai o'r tirweddau gorau yn y wlad ac mae eu statws yn cael gwarchodaeth Statudol sy'n cyfateb i Barciau Cenedlaethol. Ond bydd y tirweddau, sydd wedi'u siapia gan genedlaethau o reolaeth, yn parhau i esblygu. Bydd pwysau'n parhau i gynyddu yn sgil gofynion economaidd, hamdden a llesiant – yn enwedig ar ôl Covid-19 ac ar ôl Brexit ac mae'r risg y bydd y gofynion hyn yn lleihau'r rhinweddau arbennig tirweddol sydd mor werthfawr i ymwelwyr a chymunedau fel ei gilydd yn gofyn am reolaeth ofalus a sensitif yn y cynllun hwn – rhywfaint yn drawsnewidiol a rhywfaint yn creu sefydlogrwydd.

Mae treftadaeth eithriadol yr AHNE yn amrywio o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO ym Mhontcysyllte i'r garreg filltir ddi-nod neu ffynnon y pentref. Mae'r cysylltiadau

diwylliannol â'r ardal o fewn cymunedau a'r iaith Gymraeg yn gryf iawn ac yn elfen allweddol o'r ymdeimlad o le a pherthyn.



Addasu i Newid yn yr Hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r materion sy'n diffinio ein hamser ac yn un sydd wedi dod yn fwy amlwg yn ystod cyfnod y cynllun blaenorol. Mae Cynghorau Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam i gyd wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac yn cymryd camau wedyn i ymateb drwy gamau gweithredu ymarferol a pholisi. Gallai newid yn yr hinsawdd a'n hymateb iddo gael effaith sylweddol ar

Nodweddion a Rhinweddau Arbennig yr AHNE. Mae'r effeithiau'n debygol o fod yn eang ac yn bellgyrhaeddol; cynnydd mewn tywydd eithafol fel llifogydd a thanau gwyllt, colli cnydau amaethyddol a rhywogaethau brodorol i glefydau goresgynnol, a difrod i asedau diwylliannol a hanesyddol pwysig i enwi dim ond rhai. Bydd cyfnod y cynllun 2020-2025 yn mynnu ymateb addasu cadarn i fynd i'r afael ag effeithiau hinsawdd sydd eisoes yn amlwg, a'r rhai a ragwelir ar gyfer y dyfodol agos gan sicrhau bod ansawdd a chymeriad y dirwedd yn ystyriaethau allweddol yn y broses hon. Mae angen ystyriaeth hefyd ar gyfer effaith gweithgareddau yn yr AHNE ar allyriadau carbon sy'n cyfrannu at ragor o newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol. Bydd angen i Gynllun Rheoli 2020-2025 nodi cyfleoedd ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy reoli mawnogydd a choetir ar gyfer dal a storio carbon, trafndiaeth â thanwydd nad yw'n ffosil, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.



Hamdden, Iechyd a Lles

Mae ymwelwyr wedi cael eu hysbrydoli gan y dirwedd hon mewn celf a barddoniaeth ers y 18fed ganrif pan ddaeth twristiaid cynnar i chwilio am ryfeddodau. Ers hynny, mae cenedlaethau wedi dilyn i archwilio'r bryniau a'r dyffrynnoedd hyn gan ddod o hyd i antur yn ei llwybrau agored gwyllt yn ogystal â heddwch a llonyddwch mewn mannau i ymlacio a hamddena.

Mae safleoedd allweddol fel Loggerheads, Moel Famau, Castell Dinas Brân, wedi cael eu hatgynhyrchu gan arlunwyr tirluniau cynnar fel Richard Wilson, Turner ac Edward Pugh, ac mae ganddynt arwyddocâd arbennig o ran cyflwyno tirweddau hardd yn gynnar iawn. Maent yn rhannol wedi cyfrannu at y traddodiad cryf iawn o dwristiaeth i'r ardaloedd hyn yn yr AHNE.

Mae pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig wedi tynnu sylw at ba mor bwysig yw mynediad at natur a'r awyr agored i'n lles meddyliol a chorfforol. Mae wedi achosi i lawer o bobl ail-werthuso eu perthynas â'r amgylchedd naturiol a chydabod ei bwysigrwydd i ansawdd ein bywyd. Mae hefyd wedi tynnu sylw at anghydraddoldeb mynediad a'r effaith y gall hyn ei chael ar rai cymunedau.

Mae gan dirwedd amrywiol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy apêl eang; o'r rhai sy'n chwilio am le tawel ar gyfer myfyrdod tawel ym myd natur, i lwybrau hir ar gyfer anturiaethau gwytnwch, a mynyddoedd, dŵr gwyn a chlogwyni ar gyfer ceiswyr antur, mae gan yr AHNE lawer i'w gynnig. Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf ac mae pwysau mewn ardaloedd "pot mêl" poblogaidd yn yr AHNE wedi cynyddu o ganlyniad. Mae lletya rhagor o ymwelwyr yn gynaliadwy yn golygu bod angen cydbwysu hygyrchedd i bawb ag anghenion cymunedau lleol a gwarchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Un her allweddol ar gyfer cyfnod y cynllun arfaethedig fydd sicrhau y gellir gwireddu'r manteision iechyd hanfodol o allu cael mynediad i leoedd hardd heb gael effaith niweidiol ar gymunedau, bywoliaeth ac amgylchedd naturiol yr AHNE. Bydd y cynllun hefyd yn ceisio sicrhau bod manteision iechyd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn hygyrch ac yn cyrraedd yr ardaloedd mwyaf anghenus.



Yr Economi Wledig

Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r newidiadau deddfwriaethol sy'n deillio o hynny'n debygol o gael goblygiadau sylweddol ar arferion amaethyddol a'r economi wledig yn yr AHNE. Mae Cynllun Rheoli 2020-2025 yn cael ei gynhyrchu ar adeg o ansicrwydd ynghylch amodau masnachu, deddfwriaeth a chymorthdaliadau. Wrth greu mwy o sicrwydd drwy gydol cyfnod y cynllun, bydd angen ymateb yn rhagweithiol i reoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â chymorth economaidd gwledig yn y dyfodol. Mae gan Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol rôl allweddol i'w chwarae o ran cyflawni Adferiad Gwyrdd i Gymru – economi wledig gynaliadwy sy'n rhoi natur a hinsawdd wrth galon hynny drwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

3.2 Cyd-destun polisi

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun ar gyfer Cynllun Rheoli 2020-2025, gan roi manylion am y ffactorau polisi a deddfwriaeth perthnasol a fydd yn dylanwadu ar reoli'r AHNE. Rhagwelir y gallai'r sbardunau polisi a deddfwriaethol yn ystod cyfnod y cynllun arfaethedig newid mewn ymateb i bwysau pontio newid yn yr hinsawdd, adferiad yn dilyn Covid-19 a Brexit.

3.2.1 Statws Treftadaeth y Byd UNESCO

Mae Dyffryn Dyfrdwy yn cynnwys Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Chamlas Llangollen sydd wedi'u cofnodi fel Safle Treftadaeth y Byd yn 2009. Mae'r dynodiad o fewn tair sir, sef Sir Ddinbych, Wrecsam a Swydd Amwythig, ac mae'n ymestyn o Lantysilio yn y gorllewin i Bont Gledrid yn y dwyrain. Mae tua 90% o Safle Treftadaeth y Byd yn yr AHNE.

Mae cysyniad Safleoedd Treftadaeth y Byd wrth wraidd Confensiwn Treftadaeth y Byd. Cafodd hyn ei fabwysiadu yn 1972 gan UNESCO (Sefydliad Addysg, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig), y mae 193 o wledydd yn perthyn iddo. Drwy'r confensiwn, mae UNESCO yn ceisio annog y gwaith o adnabod, diogelu a gwarchod safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a naturiol ledled y byd yr ystyrir eu bod o werth eithriadol i'r ddynoliaeth.

Mae arysgrif Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn nodi'n glir werth Cyffredinol Eithriadol y safle ac yn nodi ardal byffer o amgylch ardal graidd sy'n cydnabod lleoliad y safle.

3.2.2 Datganiad Gweinidog yr Amgylchedd ar gyfer Tirweddau Dynodedig, 2018

Ar 26 Mawrth 2018, cadarnhaodd Gweinidog yr Amgylchedd y bydd yr holl dirweddau dynodedig presennol yn cael eu cadw ac na fydd eu pwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol yn cael ei wanhau. Cytunwyd y dylai tirweddau dynodedig chwarae eu rhan yn y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn gwarchod natur a chefnogi cymunedau gwledig bywiog.

3.2.3 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â chynllunio datblygu yng Nghymru. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch datblygu cynaliadwy wrth arfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio datblygu a cheisiadau am ganiatâd cynllunio.

3.2.4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgyssylltiedig. Cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol yn 2016. Mae'n cyflawni yn erbyn ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd.

3.2.5 Sefyllfa Byd Natur Cymru, 2019

Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn cyflwyno trosolwg o sut mae bywyd gwyllt y wlad yn dod yn ei flaen, gan edrych yn ôl dros bron i 50 mlynedd o fonitro i weld sut mae byd natur wedi newid yn y DU, Tiriogaeth Ddiabynnol y Goron a'r Tiriogaethau Tramor. Mae'r ystadegau'n dangos bod digonedd a dosbarthiad rhywogaethau'r DU wedi dirywio, ar gyfartaledd,

ers 1970 ac mae llawer o fetrigau'n awgrymu bod y gostyngiad hwn wedi parhau yn y degawd diwethaf.

3.2.6 Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru, 2020

Yn 2016, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y SoNaRR cyntaf, fel dealltwriaeth o oblygiadau datblygu Deddf yr Amgylchedd. Ers hynny, mae'r byd wedi cydnabod natur ac argyfyngau hinsawdd rydyn ni'n eu hwynebu; ac mae pandemig Covid-19 wedi dod â ffocws newydd ar lesiant. Mae'r ail SoNaRR (2020) wedi cael ei ysgrifennu yn y cyd-destun hwnnw.

3.2.7 Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, 2018

Mae'r adroddiad hwn yn sefydlu mai pwrpas cyntaf Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yw 'gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd hyn' ac mae gan Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ddiben statudol tebyg i warchod a gwella harddwch naturiol.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys pedwar nod ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru sy'n ymwneud â lleoedd gwerthfawr, amgylcheddau gwydn, cymunedau cydnerth a ffyrdd cadarn o weithio.

3.2.8 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015

Nod y Ddeddf hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a diogelu hynny ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, ystyried y tymor hir, a gweithio'n fwy effeithiol gyda phobl a chymunedau.

3.2.9 Datganiad Colchester 2019

Mae'r Datganiad yn addewid gan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol sydd â'r nod o gynyddu graddfa a chyflymder gweithgarwch cadwraeth natur mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn sylweddol. Mae'r Datganiad yn cynnwys nifer o addewidion i'w cyflawni rhwng 2020 a 2030.

3.2.10 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Y Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n ceisio gwella'r gwaith o ddiogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru.

3.2.11 Datganiad Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi datblygu saith Datganiad Ardal ar gyfer gwahanol rannau o Gymru. Mae Datganiad Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru yn cwmpasu tair sir ar wahân, sef Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam ac mae'n cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae'r Datganiad Ardal yn rhoi sylw i'r themâu allweddol canlynol sy'n hanfodol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig yng Ngogledd Ddwyrain Cymru:

- Argyfwng hinsawdd: cadernid ac addasu
- Datblygu a gwella seilwaith gwyrdd trefol/gwledig

- Cynyddu gorchudd coetiroedd ar gyfer manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd
- Hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau o ran cynnal a gwella bioamrywiaeth
- Gwarchod dŵr a phridd drwy ffermio a rheoli tir yn gynaliadwy

3.2.12 Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae'n ofynnol i bob cyngor gynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol sy'n ymwneud â thwf a newid gofodol yn eu bwrdeistrefi. Mae'r Cynlluniau Lleol ar gyfer Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint yn cynnwys polisiau sy'n ymwneud â dynodi'r AHNE ac ystyriaethau dilynol wrth ystyried cynigion datblygu a allai effeithio ar yr AHNE.

3.2.13 Canllawiau Cynllunio Atodol AHNE, 2018

Mae'r CCA wedi cael eu mabwysiadu gan Gyngorau Bwrdeistref Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r canllawiau hyn wedi'u targedu'n bennaf at unigolion a busnesau sy'n cynnig datblygiad newydd ac ar gyfer llunwyr penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli'r AHNE. Y bwriad yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr AHNE, ac, wrth wneud hynny, codi safon datblygiadau newydd a dylunio tirwedd.

4 Dull Gwasanaethau Ecosystem

Gwnaeth Cymdeithas Genedlaethol AHNE (sy'n cynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy) ddatganiad ar y cyd drwy 'Datganiad Colchester 2019' i nodi strategaeth ar gyfer newid. Un o'r addewidion erbyn 2024 oedd 'gosod dull o weithredu gwasanaethau ecosystemau ym mhob Cynllun Rheoli AHNE'¹.

Yn syml, gwasanaethau ecosystem yw'r manteision y gall pobl eu cael o'r amgylchedd naturiol. Mae deall manteision y gwasanaeth ecosystem a ddarperir gan yr AHNE yn hanfodol er mwyn cael dealltwriaeth gyfannol o wir werth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.


Mae gwasanaethau ecosystemau yn aml yn cael eu rhannu'n bedwar categori, fel y gwelir isod. Nid yw'r gwasanaethau ecosystem a restrir ym mhob categori yn rhestr gynhwysfawr.

- **Cefnogi:** Cydnabod bod ein tirwedd yn cefnogi ein Bioamrywiaeth, ffurfiant pridd;
- **Darparu:** Cydnabod bod ein tirwedd yn rhoi bwyd, pren, dŵr ffres a deunyddiau eraill i ni
- **Rheoleiddio:** Cydnabod bod ein tirwedd yn helpu i lanhau ein haer, rheoleiddio ein hinsawdd, peillio ein planhigion a chadw plâu a chlefydau draw; a
- **Diwylliannol:** Cydnabod bod ein tirwedd yn rhoi heddwch a llonyddwch i ni, yn cysylltu cymunedau ac yn rhoi cyfleoedd i ni ar gyfer hamdden a thwristiaeth. Gwerth ysbrydol a chrefyddol, gwerth esthetig, Hamdden a thwristiaeth.

Mae systemau naturiol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn sail i'n hiechyd, ein cyfoeth a'n hapusrwydd a'n hunaniaeth. Os caiff ei reoli'n gywir, bydd yr AHNE yn parhau i ddarparu rhai o hanfodion bywyd i ni, fel darparu aer a dŵr glân, bwyd, tanwydd a deunyddiau crai. Felly, mae'r Cynllun hwn yn ystyried pa fanteision y gall yr AHNE eu darparu i ddiwallu anghenion cymdeithas ac i ymateb i faterion cyfredol fel lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Cydnabyddir hefyd bod tirwedd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dylanwadu ar ecosystemau, cymunedau ac economïau ymhell y tu hwnt i ffin y dynodiad. Er enghraifft, mae dalgylch afon Dyfrdwy yn ymestyn dros Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint a Swydd Gaer. O'r herwydd, mae gweithredu mesurau rheoli yn yr AHNE o bosibl yn bellgyrhaeddol ac mae angen ystyried effeithiau (cadarnhaol a negyddol).

¹Datganiad Colchester 2019. Ar gael yn: <https://landscapesforlife.org.uk/projects/colchester-declaration>



5 Nodweddion a Rhinweddau Arbennig AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

5.1 Diffinio'r Nodweddion a'r Rhinweddau Arbennig

Wrth bennu rhaglen reoli ar gyfer gwarchod a gwella tirwedd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, yn gyntaf mae angen diffinio'r nodweddion a'r rhinweddau unigol hynny sy'n ffurfio cymeriad arbennig yr ardal.

Er y cydnabyddir bod nifer o elfennau o fewn y dirwedd sydd o werth arbennig, mae'n bwysig nodi'r nodweddion hynny o fewn Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy sy'n cynrychioli'r rhinweddau gorau yn genedlaethol. Cydnabyddir hefyd bod y cymeriad arbennig hwn yn cynnwys cyfuniad unigryw o'i holl nodweddion a nodweddion arbennig. Mae hyn yn gyfuniad o'r nodweddion ffisegol (bryniau tonnog, afonydd byrlymus, rhostiroedd grugog) a nodweddion nad ydynt yn rhai ffisegol (tawelwch, ysbryd cymunedol, mynediad at natur). Cyfeirir at y nodweddion hyn yn y Cynllun Rheoli hwn fel "Nodweddion" a "Rhinweddau" yn y drefn honno. Er bod rhai elfennau o'r dirwedd yn cael eu cydnabod am eu gwerth cenedlaethol neu ryngwladol a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n eang, mae rhinweddau arbennig eraill yn fwy goddrychol ac yn dibynnu ar ein rhyngweithio a'n canfyddiad unigol. Mae'r Cynllun Rheoli hwn yn sefydlu mecanweithiau ar gyfer diogelu a gwella'r Nodweddion a'r Rhinweddau Arbennig ym mhob un o'r pedair thema.

Yn 2009, cynhaliwyd ymgynghoriad gyda chymunedau lleol, cyrff cyhoeddus ac asiantaethau sydd â diddordeb yn rheolaeth yr ardal er mwyn diffinio nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE. Gwnaed gwaith tebyg yn 2011 yn ystod y broses o ymestyn yr AHNE i gynnwys Dyffryn Dyfrdwy. Fel rhan o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer Cynllun Rheoli 2020-2025, gofynnwyd i randdeiliaid craidd ac ymgynghoreion cymunedol a oeddent yn credu bod y rhestr bresennol o nodweddion a rhinweddau arbennig yn dal yn berthnasol ac yn adlewyrchu'r AHNE ar hyn o bryd.

Mae priodoleddau a nodweddion arbennig yr AHNE wedi'u nodi yn Nhabl 5-1 isod.

5.2 Cyflwr a thuaddiadau sylfaenol

Mae adroddiad Cyflwr yr AHNE yn cael ei lunio i lywio Cynllun Rheoli 2020-2025. Mae'n rhoi syniad o dueddiadau a chyflwr y nodweddion a'r rhinweddau arbennig i fesur llwyddiant yr Amcanion Strategol a chatau gweithredu cysylltiedig y Cynllun Gweithredu drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae'r prif ystadegau sylfaenol wedi'u crynhoi isod. Darperir dadansoddiad pellach yn adroddiad Cyflwr yr AHNE.

Cymeriad ac Ansawdd y Dirwedd	<p>Llonyddwch <i>Mae llonyddwch yn gysylltiedig ag awyrgylch o dawelwch a llonyddwch; heddwch a distawrwydd; ac awyr dywyll y nos.</i></p> <p>Natur Ynysig a Gwyllt, Gofod a Rhyddid <i>Mae natur ynysig a gwyllt yn gysylltiedig â theimlad o ofn a pherygl hyd yn oed weithiau. Y rhyfeddol.</i> <i>Mae lle a rhyddid yn gysylltiedig â mynediad i'r dirwedd a'r golygfeydd helaeth a di-dor o'r mannau uchel oddi mewn iddi.</i> <i>Bro a'r cyswllt rhwng cymunedau a'u tirwedd.</i> <i>Ymdeimlad o berthyn ac ymlyniad at y dirwedd.</i></p>
Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt	<p>Gweundir grugog a Chribau tonnog <i>Cribau gweundir dramatig Bryniau canolog Clwyd, Rhosydd llydan Llandegla a Rhiwabon, Llandtysillio a Gogledd y Berwyn.</i></p> <p>Coetiroedd llydanddail a choed aeddfed <i>Bishops Wood, Cwm a Bro Wheeler. Coedlannau Dyffryn Alyn a ddominyddir gan goedydd bach Alyn uchaf a choed derw ucheldir Dyffryn Dyfrdwy.</i></p> <p>Dyffrynnoedd afonydd ac Afon Dyfrdwy <i>Roedd yr Afon Dyfrdwy ddramatig a phwerus yn cyferbynnu â'r Afon Alyn a'r Afon Wheeler llai troellog. Dalgylch Clwyd gyda llif o Fryniau Clwyd.</i></p> <p>Glaswelltir, clogwyni a sgrïau calchfaen <i>Graig Fawr, Loggerheads a Bryn Alyn – Llanarmon yn lal a tharren ysblennydd Eglwyseg.</i></p>
Yr Amgylchedd Hanesyddol	<p>Anheddiad Hanesyddol ac Archaeoleg <i>Patrymau anheddiad hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth. Y patrymau a'r nodweddion amrywiol yn y dirwedd a adawyd gan genedlaethau blaenorol.</i></p> <p>Nodweddion Diwydiannol a Safle Treftadaeth y Byd <i>Chwareli calchfaen a chwareli plwm, chwareli llechi a thramffyrdd a gweithfeydd cysylltiedig – Traphont ddŵr a chamlas Pontcysyllte, Rhaeadr y Bedol.</i></p> <p>Nodweddion Amddiffyn Hanesyddol <i>Cadwyn dramatig Bryngaerau'r Oes Haearn yn Bryniau Clwyd, Castell Dinas Brân, Castell y Waun a'r Mwnt a Beili canoloesol yn Nhomen y Rhowydd, Tomen y Fadre a Mynydd Glyndŵr, Carrog.</i> <i>Defodau a nodweddion angladdol cynhanesyddol.</i></p> <p>Mân nodweddion hanesyddol</p>

	<p><i>Yn aml, mae'r rheini sydd heb eu rhestru neu wedi'u trefnu yn gymysgedd cyfoethog o fân nodweddion hanesyddol sy'n rhan bwysig o haen ddiwylliannol gyfoethog y dirwedd – ffynhonnau, pympiau, cerrig terfyn, arwyddbyst, llwyfannau llefrith a blychau ffôn K6.</i></p> <p>Ffiniau traddodiadol</p> <p><i>Waliau a gwrychoedd cerrig sych sy'n adlewyrchu sgiliau a chreffftwaith traddodiadol ac sy'n aml yn adlewyrchu arddulliau a daeareg leol.</i></p>
Mynediad, Hamdden a Thwristiaeth	<p>Atyniadau i Ymwelwyr ac Atyniadau Diwylliannol Eiconig</p> <p><i>Safleoedd sydd wedi helpu i siapio hunaniaeth yr AHNE fel cyrchfan i ymwelwyr – Loggerheads, Moel Famau, Castell Dinas Brân, Abaty Glyn y Groes, Bwlch yr Oernant, Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Rhaeadr y Bedol.</i></p> <p>Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a Llwybrau wedi'u Hyrwyddo</p> <p><i>Gan ymestyn o Fryniau Prestatyn yn y gogledd i Langollen yn y de, mae'r Llwybr Cenedlaethol yn gwneud yr AHNE yn arbennig o hygyrch. Ffordd Dyffryn Dyfrdwy, Ffordd Gogledd Berwyn a rhwydwaith o lwybrau cymunedol. Ynghyd ag ardaloedd helaeth o Dir Mynediad, mae tirwedd yr AHNE yn arbennig o hygyrch.</i></p>
Diwylliant a Phobl	<p>Yr Amgylchedd Adeiledig</p> <p><i>Y pentrefi a'r trefi, pentrefannau ac aneddiadau gwasgaredig.</i></p> <p>Pobl a Chymunedau</p> <p><i>Cymysgedd cyfoethog o ddiwylliant ac ymdeimlad cryf o gymuned – y cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n hanfodol i gynnal bywyd cefn gwlad.</i></p> <p><i>Yr iaith Gymraeg a thraddodiadau gwledig.</i></p>

Tabl 5-1 Nodweddion a Rhinweddau Arbennig

6 Gweledigaeth ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy 2020-2025

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn dirwedd ddeinamig gyda chymunedau ffyniannus ac economi leol ffyniannus. Mae'r dirwedd yn cynnal adnodd biolegol a diwylliannol cyfoethog sy'n dod â manteision i'r cymunedau, yr economïau a'r ecosystemau sydd ymhell y tu hwnt i'w ffin. Mae tirwedd Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cael ei gwerthfawrogi gan y rheini sy'n byw yn yr AHNE ac yn ymweld â hi. Mae ei Nodweddion a'i Rhinweddau Arbennig yn cael eu hyrwyddo, eu deall a'u gwerthfawrogi'n eang. Mae cymunedau lleol, busnesau ac ymwelwyr yn ymwneud ag amddiffyn a gwella'r rhinweddau a'r nodweddion hyn.

Rheolir yr AHNE drwy bartneriaethau cadarn ac effeithiol sy'n sicrhau bod cymunedau ac ymwelwyr yn chwarae rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau ac yn cael eu grymuso i fuddsoddi yn nyfodol yr AHNE.

Mae Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn flaenllaw o ran datblygu cynaliadwy a blaengynllunio, ac mae ei warchodaeth ryngwladol yn ddylanwadol ar lwyfan rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

Mae'r rheini sy'n byw yn yr AHNE ac yn ymweld â hi yn ymwneud â deall y risgiau a'r cyfleoedd a ddaw yn ystod cyfnod y cynllun arfaethedig, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, pwysau gan ymwelwyr a diwygio amaethyddol. Mae'r AHNE yn cael ei rheoli yn y fath fodd fel ei bod yn gallu addasu i newid ac yn ystwyth mewn ymateb i heriau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd niweidiol.



7 Themâu'r Cynllun Rheoli

Mae adrannau canlynol y Cynllun Rheoli yn gosod agenda ar gyfer ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r AHNE yn ystod cyfnod y cynllun 2020-2025 yng nghyd-destun gwarchod y Rhinweddau a'r Nodweddion Arbennig o dan y pedair thema. Mae pob adran thema yn nodi'r cyd-destun yn y cyflwyniad. Mae'r Prif Nodau'n sefydlu'r amcanion lefel uchel ar gyfer y thema yn wyneb gyrwyr perthnasol yn ystod cyfnod y cynllun 2020-2025. Mae "Sut Beth Fyddai Llwyddiant" yn ceisio dychmygu'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y Rhinweddau a Nodweddion Arbennig os yw'r Cynllun Rheoli yn llwyddo i gyflawni ei Amcanion Strategol yn ystod cyfnod y Cynllun. Yn olaf, mae'r Amcanion Strategol yn amlinellu nodau thema ar gyfer cyfnod y cynllun, ac yn erbyn y rhain mae camau gweithredu ar gyfer cyflawni wedi'u sefydlu yn y Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

8 Natur, Tirwedd a Threftadaeth

Cyflwyniad



Mae'r AHNE yn un o dirweddau gwarchodedig gorau'r DU. Denwyd ymwelwyr cynnar, beirdd ac artistiaid fel Richard Wilson a William Turner i'r ardal, wedi'u hysbrydoli gan dirwedd sy'n gyfuriog o ddiwylliant, treftadaeth a natur. Mae cribau gweundir dramatig Bryniau Clwyd a bryniau tonnog Dyffryn Dyfrdwy wedi'u plethu â chlogwyni calchfaen ysblennydd, afonydd troellog a rhaeadrol a choetiroedd gwasgarog, i gyd yn cael eu gwarchod gan fryngaerau a chestyll hynafol. Mae rhywogaethau eiconig fel y gylfinir, yr ehedydd a'r grugieir duon yn cael eu cefnogi gan arae helaeth ac amrywiol yr AHNE o gynefinoedd, wedi'u siapio dros y mileniwm gan brosesau naturiol ac ymyrraeth ddynol. Mae ei awyr serog yn cynnig ymdeimlad o lonyddwch ac yn ein hatgoffa o'n lle yn y bydysawd.

Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau a gefnogir yn yr AHNE yn adlewyrchu'r amrywiadau lleol mewn daeareg, topograffeg, priddoedd, defnydd tir a hinsawdd. Maent yn cynnwys rhai o gynefinoedd pwysicaf y DU. Er bod llawer o'i nodweddion naturiol wedi esblygu ac addasu dros amser, mae'r argyfyngau hinsawdd a natur gwaelodol yn creu pwysau tymor hir a thymor byr ar gyfer newid sy'n bygwth ecoleg amrywiol yr AHNE. Mae colli bioamrywiaeth yn yr AHNE yn cyflymu ac yn galw am ymdrech ar y cyd gan bob sector i atal y dirywiad hwn. Roedd y neges hon yn un o brif themâu ymgynghoriadau â rhanddeiliaid i gefnogi'r cynllun rheoli hwn, ac mae'n cael ei hategu gan dystiolaeth o Adroddiadau Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru (SoNaRR 2016 a 2020). Mae'r adroddiadau hyn yn nodi dirywiad cyffredinol a cholli gwytnwch llawer o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau yn yr AHNE, drwy golli cysylltedd, pwysau defnyddio tir a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol.

